Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

# Materion ymchwil: ein cynllun ar gyfer gwella ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru

## 2022 – 2025

This document is also available in English

# Cynnwys

Materion ymchwil: ein cynllun ar gyfer gwella ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru . 1
1. Cyflwyniad ... 3
2. Ynglŷn ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ... 3
3. Ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: ble’r ydym yn awr ... 7
4. Ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU: y cyd-destun ehangach ... 8
5. Gosod yr agenda ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ... 11
5.1 Datblygu strategaethau ymchwil ar gyfer Cymru a’r DU ... 11
5.2 Nodi’r anghenion a’r blaenoriaethau ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ... 13
6. Ariannu a threfnu gwaith ymchwil ... 15
6.1 Swyddogaeth a threfniadaeth ein cynlluniau ariannu ein hunain ... 15
6.2 Partneriaethau gyda rhaglenni y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal a rhaglenni cyllidwyr eraill ... 16
6.3 Ariannu seilwaith ar gyfer canolfannau ac unedau ymchwil ... 17
7. Meithrin capasiti a gallu mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ... 19
7.1 Gyrfaoedd ymchwil a Chyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ... 19
7.2 Arwain a chefnogi ymchwil yn y GIG yng Nghymru ... 21
7.3 Arwain a chefnogi ymchwil ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru ... 25
7.4 Defnyddio data ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ... 26
8. Defnyddio gwaith ymchwil i wella iechyd a gofal cymdeithasol ... 28
9. Themâu trawsbynciol ... 29
9.1 Cyfathrebu, ymgysylltu, a chyfranogiad ... 29
9.2 Cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil iechyd a gofal ... 31
9.3 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn ymchwil iechyd a gofal . 32
10. Casgliad: mae ymchwil yn bwysig pan fo ymchwil yn gweithio ... 33

## 1. Cyflwyniad

Yn ystod pandemig COVID-19, sefydlodd a chyflenwodd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'i bartneriaid 125 o astudiaethau COVID-19 ledled Cymru yn rhan o ymdrech ymchwil ledled y DU. Cymerodd dros 60,000 o bobl yng Nghymru ran mewn ymchwil COVID-19, gan gynnwys deg treial brechlyn rhyngwladol. Nid yw ymchwil wedi bod mor weladwy a'i heffaith mor ddifrifol o'r blaen.

Mae ein cynllun ar gyfer 2022–2025 yn nodi sut mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn bwriadu adeiladu ar yr etifeddiaeth hon er mwyn gwella'r holl ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, sbarduno gwelliannau mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gosod sylfeini ar gyfer gwell canlyniadau i bobl a chymunedau ledled Cymru.

Mae'r cynllun yn darparu asesiad cryno a chlir o gyflwr presennol ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac yn nodi ein huchelgeisiau a'r camau y byddwn yn eu cymryd yn ystod y tair blynedd nesaf i gyflawni'r rhain. Mae'n amlinellu rôl a swyddogaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn gyntaf o'u cymharu â chefndir tirwedd ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan dynnu sylw at bwysigrwydd ymchwil, gan esbonio'r dirwedd gymhleth o ran ariannu a darpariaeth, a chrynhoi datblygiadau allweddol ar lefel Cymru a'r DU. Yna, mae'n canolbwyntio ar y statws presennol, a chyflenwad y pedwar nod allweddol yn y dyfodol sy'n tanategu ein cenhadaeth. Ar gyfer pob nod allweddol, mae'n nodi datblygiadau diweddar a phresennol ac yn amlinellu ein huchelgeisiau a'n gweithredoedd arfaethedig. Mae'n gorffen drwy ddisgrifio sut mae tri maes trawsbynciol yn tanategu ein holl weithgareddau – cyfathrebu ac ymgysylltu; cynnwys cleifion a'r cyhoedd; a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

## 2. Ynglŷn ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Cenhadaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yw hybu, cefnogi a goruchwylio ar y cyd ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn sicrhau ei fod o'r ansawdd gwyddonol rhyngwladol uchaf, yn berthnasol i anghenion a heriau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac yn gwneud gwahaniaeth i bolisïau ac ymarferion mewn ffyrdd sy'n gwella bywydau pobl a chymunedau yng Nghymru.

Er mwyn cyflawni'r genhadaeth hon, rydym wedi gosod pedwar nod allweddol i'n hunain:

1. **Gosod yr agenda ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.** Rydym yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd i osod yr agenda ar gyfer ymchwil a datblygu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan

hybu ymchwil fel sbardun arloesedd a gwelliant ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

2. **Ariannu a threfnu gwaith ymchwil.** Rydym yn cydlynu ac yn cysylltu ag asiantaethau ariannu ymchwil yng Nghymru ac ar lefel y DU i gynllunio ac ariannu ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Ein nod yw gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau, a sicrhau bod Cymru'n ymgysylltu cymaint â phosibl o ran ariannu ymchwil yn y DU ac yn rhyngwladol. Rydym yn cynnal ein cynlluniau ariannu ein hunain ac yn ymgysylltu mewn cynlluniau traws-gyllidol a phartneriaeth ag eraill.

3. **Meithrin capasiti a gallu mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.** Rydym yn gweithio gyda'n gilydd fel rhwydwaith o brifysgolion, byrddau ac ymddiriedolaethau y GIG, awdurdodau lleol a darparwyr gofal yng Nghymru i greu a chynnal gallu a chapasiti ym maes ymchwil ac i gefnogi sefydliadau i arwain ac ymgymryd â gwaith ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, a'u cefnogi.

4. **Defnyddio gwaith ymchwil i wella iechyd a gofal cymdeithasol.** Rydym yn gweithio gydag arweinwyr y system iechyd a gofal cymdeithasol a'u sefydliadau i hybu defnydd effeithiol o ymchwil mewn arloesedd a gwelliant, sy'n arwain at ledaenu a chwyddo'r gwelliannau hynny.

Ni allwn gyflawni'r nodau hyn heb weithio'n agos a chydweithredu mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau eraill, yng Nghymru a ledled y DU. Fel ein sefydliadau cyfatebol yn nhair gwlad arall y Deyrnas Unedig, gan ein bod yn gyllidwr, ar ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol sy'n glinigol, yn gymhwysol neu'n drosiadol ei natur, ac sy'n digwydd mewn lleoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol yn aml y mae ein prif bwyslais. Ymchwil ac Arloesi yn y DU ac yn enwedig y Cyngor Ymchwil Feddygol, yr ydym yn gweithio'n agos ag ef, sy'n arwain ar gyfer ariannu ymchwil gwyddoniaeth sylfaenol yn y maes hwn ledled y DU[1].

Mae'n bwysig iawn, er bod tirwedd ymchwil, datblygiad ac arloesedd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn ehangach yn gymhleth, ein bod yn ceisio cydweithio â sefydliadau eraill ar draws ffiniau sefydliadol, sectoraidd a daearyddol i ddatblygu diben cyffredin. Yn hyn, mae ein cenhadaeth a'n pedwar nod yn ganolog i ddatblygu a chynnal y math o ddealltwriaeth a rennir a'r dull cydweithredol yr ydym yn eu dymuno ac sydd eu hangen arnom. Mae ein hathroniaeth yn syml. Rydym yn dymuno gweld ymchwil gwych yn cael ei wneud sy'n cael effaith pwysig ac ystyrlon ar wasanaethau iechyd a gofal ac iechyd a lles pobl yng Nghymru.

---

[1] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/228984/0118404881.pdf

Mae'r cynllun hwn yn gyson â Cymru iachach[2] (cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol) ac mae'n ymgorffori'r pum ffordd o weithio a amlinellir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae hefyd yn gyson â strategaeth Arloesedd Llywodraeth Cymru y disgwylir ei chyhoeddi yn 2023 ac mae hyn yn hanfodol os ydym yn dymuno gwneud ein gwasanaethau iechyd a gofal yn fwy effeithiol, effeithlon a chynhyrchiol, sy'n gwella gofal a gall arwain at arbed ac ailfuddsoddi adnoddau.

Sefydliad rhwydwaith a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, sy'n dwyn ynghyd ystod eang o bartneriaid ar draws y GIG yng Nghymru, awdurdodau lleol, prifysgolion, sefydliadau ymchwil, y gwyddorau bywyd, diwydiannau fferyllol a thechnoleg feddygol, sefydliadau trydydd sector/gwirfoddol, grwpiau cymunedol a llawer o rai eraill yw Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Mae gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru dîm bach o weision sifil sy'n gweithio yn yr Is-adran Ymchwil a Datblygu, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru; ac fe'i cefnogir gan dîm mwy o staff a gyflogir gan y GIG sy'n gweithio yn ein Canolfan Cefnogi a Chyflenwi a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, yn ogystal â gweithlu ehangach ar draws y GIG, gofal cymdeithasol a'r sector prifysgol.

Mae gennym gyllideb flynyddol o £47 miliwn (yn 2022/23) a neilltuwyd gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r tabl isod yn dangos yn fras sut mae'r buddsoddiad hwnnw'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd. Ceir rhagor o fanylion am ein canolfannau ymchwil, ein rhaglenni, ein dyfarndaliadau a gweithgareddau eraill a gyllidir ar ein gwefan.

[2] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf

**Crynodeb o gyllideb flynyddol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar gyfer 2022/23**

| Maes | Disgrifiad | Gwariant |
|---|---|---|
| Canolfannau ac unedau ymchwil | Cyllid craidd a ddarperir i oddeutu 15 o ganolfannau neu unedau ymchwil a leolir yn sefydliadau addysg uwch Cymru | £10.7 miliwn |
| Rhaglenni ymchwil | Cyllid ar gyfer prosiectau ymchwil a gomisiynir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru drwy alwadau rheolaidd am gynigion, ac ar gyfer ein cyfraniad i raglenni ymchwil a arweinir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal sy'n agored i ymchwilwyr o Gymru. | £10.1 miliwn |
| Ymchwil ym myrddau iechyd ac ymddiriedolaethau y GIG | Cyllid i gefnogi'r gwaith o gyflenwi ymchwil glinigol ym myrddau iechyd ac ymddiriedolaethau y GIG ac ar gyfer seilwaith ymchwil a staffio | £16 miliwn |
| Canolfan Cefnogi a Chyflenwi | Cyllid i ddarparu gwasanaethau canolog megis gwasanaethau cydlyniant a chefnogaeth genedlaethol ar gyfer cyflenwi ymchwil, perfformiad a deallusrwydd busnes, systemau gwybodaeth, gwasanaethau hyfforddi, gweinyddu'r Gyfadran, cyfathrebu, ymgysylltu a gwasanaethau cynnwys y cyhoedd, a chynnal gwasanaeth cymeradwyo Cymru | £3.6 miliwn |
| Datblygu'r capasiti a'r gallu i ymchwilio | Cyllid ar gyfer cynlluniau dyfarniadau personol a gweithgareddau datblygu ymchwilwyr a gydlynir gan Gyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru | £4.9 miliwn |
| Gweithredu tystiolaeth a gwybodaeth | Cyllid ar gyfer Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i ddarparu synthesis tystiolaeth cyflym a gweithredu gwybodaeth | £1.7 miliwn |

Cefnogir Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru gan ein Bwrdd Cynghori, sy'n bodoli er mwyn ein cynghori ar bob agwedd ar ein cenhadaeth, gan gynnwys cynghori ar gyfeiriad strategol ymchwil a datblygu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru; adolygu a rhoi sylwadau ar gynlluniau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, rhaglenni gwaith, adroddiadau a chyhoeddiadau; cynnig safbwyntiau a chyngor ar gyllid a'r broses o drefnu ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru; a ffurfio safbwynt ar gyfraniad Cymru i ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel y DU. Prif Swyddog Meddygol Llywodraeth Cymru sy'n cadeirio'r bwrdd, ac mae'n cynnwys

unigolion o amrywiaeth o sefydliadau ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol a'r gymuned ymchwil iechyd a gofal. Gellir gweld y cylch gorchwyl a'r aelodaeth ar ein gwefan, ynghyd â gwybodaeth am ein holl feysydd gweithgarwch a nodir yn y tabl uchod a'n holl adroddiadau a chyhoeddiadau.

## 3. Ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: ble'r ydym yn awr

Mae pandemig COVID-19 wedi dangos yn glir werth ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol a'i phwysigrwydd i lunwyr polisïau, arweinwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a phobl a chymunedau o ran gwneud penderfyniadau da. Cynhyrchodd ymdrech ymchwil iechyd y DU therapiwteg, brechlynnau a thystiolaeth ar reolaeth ac epidemioleg heintiau oedd yn ganolog i ymdrin â'r pandemig a'i ganlyniadau ar gymdeithas. Mae cefnogaeth gyhoeddus enfawr i ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru – canfu pleidlais Ipsos Mori diweddar fod 86% o'r ymatebwyr yn teimlo bod y DU wedi chwarae rhan sylweddol mewn dod o hyd i driniaethau COVID-19; mae 87% ohonynt yn falch o ymchwilwyr y DU a staff y GIG a ganfu rai o'r triniaethau a'r brechlynnau effeithiol cyntaf; mae 91% ohonynt yn teimlo'n ddiolchgar i'r bobl a gymerodd ran yn yr ymchwil am frechlynnau, profion a thriniaethau; ac mae 78% ohonynt yn awyddus i ymchwil iechyd fod yn rhan o'r gofal arferol a gynigir gan y GIG.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd strategol ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol i economi Cymru ac i gymdeithas, gan ei nodi yn un o'r pum blaenoriaeth allweddol ar gyfer ymchwil ac arloesedd mewn datganiad ysgrifenedig allweddol gan y Prif Weinidog yn 2021 sy'n dweud bod yn rhaid inni "[f]eithrin ein gallu ymchwil, datblygu ac arloesi yn y gwyddorau bywyd ac iechyd gan sicrhau bod Cymru'n bartner llawn o ran cyflawni gweledigaeth gwyddorau bywyd y DU"[3].

Ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yw'r sector mwyaf ar gyfer buddsoddi mewn ymchwil gan y llywodraeth/cyllid cyhoeddus a chan ddiwydiant yn y DU – oddeutu £8.6 biliwn bob blwyddyn, neu dros chwarter holl wariant ymchwil a datblygu y DU – ac mae'n un o brif gryfderau economi y DU. Daw'r cyllid hwnnw o ddiwydiant (oddeutu hanner) ac oddi wrth y llywodraeth a chyllidwyr elusennol (yr hanner arall). Mae'r olaf yn cynnwys pedair prif ffrwd ariannu sydd wedi eu datganoli'n rhannol ac a gynhelir yn rhannol ar lefel y DU – adrannau iechyd; adrannau addysg/gwyddoniaeth; Ymchwil ac Arloesi yn y DU (cynghorau ymchwil); ac elusennau meddygol.

Ond mae buddsoddiad cyhoeddus mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i ganolbwyntio ar Lundain, a de-ddwyrain Lloegr (mae 56% o'r holl gyllid yn

[3] https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-pum-blaenoriaeth-ar-gyfer-ymchwil-datblygu-ac-arloesi

mynd i sefydliadau yn Llundain, Rhydychen a Chaergrawnt). Mae Cymru'n sicrhau oddeutu 2.4% neu hanner yr hyn sy'n cyfateb â chyfran sy'n gymesur i'w phoblogaeth o gyllid y llywodraeth/cyhoeddus ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Ar yr un pryd, mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol a datblygiad yn sylweddol is, yn gymesur, na'r cyllid yn Lloegr. Ar y cyfan, mae sector ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol Cymru wedi gweld cyfnod hir o danfuddsoddiad parhaus gyda chanlyniadau difrifol ar ei gapasiti a'i allu.

Cyhoeddodd Grŵp Traws Seneddol ar ymchwil feddygol y Senedd adroddiad yn 2021 ar sail gwrandawiadau a gynhaliwyd dros nifer o fisoedd a wnaeth bum prif argymhelliad:

1. Cyllid – cyfateb i lefelau cyllid y DU yn grant ymchwil Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i brifysgolion ac yng nghyllideb Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
2. Cydweithrediad – cefnogi ac ysgogi partneriaethau academaidd a diwydiant ledled Gymru a thu allan iddi, ac ymgysylltu ag ymchwil yn y GIG yng Nghymru
3. Gyrfaoedd – darparu cyllid a chyfleoedd hirdymor ar gyfer gyrfaoedd ymchwil, gan gynnwys amser gwarchodedig i academyddion clinigol a chlinigwyr, a chefnogaeth barhaus i gynllun Ser Cymru er mwyn meithrin talent
4. Cleifion a'r cyhoedd – sicrhau bod pobl yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn ymchwil ac yn cael mynediad teg i dreialon clinigol
5. Effaith ymchwil – creu fforymau effeithiol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth rhwng ymchwilwyr a llunwyr polisïau, gan gynyddu'r defnydd o dystiolaeth newydd i bolisïau Llywodraeth Cymru

## 4. Ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU: y cyd-destun ehangach

Dylid gosod y cynllun hwn yng nghyd-destun ehangach amrywiaeth o bolisïau llywodraeth y DU a strategaethau y DU sy'n gysylltiedig ag ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Caiff llawer iawn o ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ei ariannu a'i gwneud ar lefel y DU, ac mae'n hanfodol ein bod yn ystyried y cyd-destun ehangach hwn, ein bod yn rhagweithiol wrth geisio ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill ac yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd y mae tirwedd y DU yn eu cynnig i Gymru.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cynrychioli Llywodraeth Cymru a'r gymuned ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol mewn nifer o fforymau allweddol y DU – megis Swyddfa Cydlynu Strategol Ymchwil i Iechyd a Cydweithredu ar Ymchwil Glinigol y DU – ac mewn trafodaethau pedair gwlad gyda'n sefydliadau cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r datblygiadau allweddol diweddar yn cynnwys:

- Yn 2020, cyhoeddodd llywodraeth y DU drywydd ymchwil a datblygu ar gyfer y DU[4] sy'n mynegi'r uchelgeisiau ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd ac yn cydnabod bod angen "rhoi mwy o ystyriaeth i ganlyniadau sy'n seiliedig ar leoedd yn y modd yr ydym yn gwneud penderfyniadau ar ymchwil a datblygu yn y DU, gan sicrhau bod ein systemau ymchwil a datblygu yn cyfrannu at ein hagenda cynyddu'r lefel i'r graddau mwyaf posibl". Mae'n dweud y byddai llywodraeth y DU yn "cydweithredu ledled y DU, gan feithrin mwy o gydweithrediad a rhwydweithiau rhwng cyllidwyr, ymchwilwyr, ymarferwyr ac arweinwyr dinesig er mwyn ymgorffori system sy'n cyflenwi budd economaidd lleol cryfach a gwell ansawdd canlyniadau bywyd oddi wrth ymchwil a datblygu".

- Yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant tair blynedd a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd llywodraeth y DU y byddai'n cynyddu cyllid cyhoeddus ar gyfer ymchwil a datblygu i £20 biliwn y flwyddyn erbyn 2024/25 – cynnydd o oddeutu chwarter mewn termau real, ac yn agos at y targed a gyhoeddwyd yn flaenorol o £22 biliwn[5]. Mae'r setliad hwn yn darparu hyblygrwydd sylweddol ar gyfer twf ac ailddosbarthu. Dywed yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant: "Bydd y llywodraeth yn sicrhau bod cyfran uwch o'r cynnydd mwyaf erioed yng ngwariant y llywodraeth ar ymchwil a datblygu dros gyfnod Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2021 yn cael ei fuddsoddi y tu allan i Dde-ddwyrain Lloegr Fwyaf".

  Hefyd, darparodd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gynnydd sylweddol mewn cyllid ymchwil ar gyfer Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Lloegr (a chanlyniadau canlyniadol i lywodraethau datganoledig o dan fformiwla Barnett). "Mae'r setliad yn darparu £5 biliwn yn ystod cyfnod Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2021 ar gyfer ymchwil a datblygu sy'n ymwneud ag iechyd. Mae hyn yn cynnwys y cynnydd ariannol mwyaf erioed ar gyfer ymchwil a datblygu mewn iechyd, gyda chynnydd o £605 miliwn ar gyllid 2021–22 erbyn 2024–25 sy'n golygu y bydd y buddsoddiad yn codi i £2 biliwn y flwyddyn erbyn diwedd cyfnod Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2021." Yng nghyllideb ymchwil a datblygu honno yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol amlygwyd nifer o flaenoriaethau gan gynnwys: £40 miliwn o fuddsoddiad newydd mewn ymchwil gofal cymdeithasol; £30 miliwn i gefnogi buddsoddiad mewn ymchwil sgiliau a hyfforddiant er mwyn cynyddu lefel y cyfleoedd ar gyfer grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol, yn enwedig mewn nyrsio, bydwreigiaeth, a'r proffesiynau perthynol i iechyd; £95 miliwn ar gyfer y Swyddfa Gwyddorau Bywyd ar gyfer cyflenwi gweledigaeth gwyddorau bywyd y llywodraeth; cyllid ar gyfer prosiectau Genomics England gan gynnwys Generation Genome, sef rhaglen sgrinio newydd-anedig

[4] https://www.gov.uk/government/publications/uk-research-and-development-roadmap
[5] https://www.gov.uk/government/publications/autumn-budget-and-spending-review-2021-documents

arloesol, i ganfod dros 200 o glefydau prin, a ‘Data Amrywiol’, er mwyn cynyddu cynrychiolaeth grwpiau lleiafrifol mewn ymchwil genomeg; ac ymchwil ar gyfer triniaethau COVID-19 arloesol.

- Cyhoeddodd Ymchwil ac Arloesi yn y DU, sy’n dod â’r holl gynghorau ymchwil ynghyd gydag Innovate UK ac Research England, ei strategaeth pum mlynedd gyntaf yn 2022[6]. Mae’n nodi cynlluniau uchelgeisiol i wella capasiti ymchwil ac arloesedd y DU ac i gynnal ei safle’n fyd-eang ac mae’n ymrwymo i “gefnogi clystyrau ymchwil ac arloesedd ffyniannus ledled y DU, gan greu swyddi gwerth uchel amrywiol a thwf economaidd lleol”.

- Cyhoeddodd llywodraeth y DU ei gweledigaeth gwyddorau bywyd yn 2021[7] sy’n nodi strategaeth ddeng mlynedd i gyflymu ymchwil a chyflenwi datblygiadau arloesol i gleifion. Roedd yn cynnwys dulliau a arweinir gan genhadaeth a sbardunir gan y llywodraeth, diwydiant, y GIG, y byd academaidd ac elusennau ymchwil meddygol er mwyn datrys rhai o broblemau gofal iechyd mwyaf ein cenhedlaeth, gan gynnwys canser, dementia, iechyd meddwl a gordewdra.

- Mae pedair gwlad y DU wedi gosod gweledigaeth beiddgar ac uchelgeisiol er mwyn cyflenwi ymchwil glinigol yn y dyfodol[8], sy’n ceisio manteisio ar arloesedd, yn gadarn yn wyneb heriau gofal iechyd y dyfodol a’i nod yw gwella bywydau cleifion ledled y DU a’r byd. Mae hyn yn golygu gwreiddio ymchwil glinigol wrth galon gofal cleifion ar draws y GIG, gan wneud cyfranogi mor rhwydd â phosibl a sicrhau bod yr holl staff iechyd a gofal yn teimlo eu bod wedi eu grymuso i gefnogi ymchwil. Ac mae’r weledigaeth hefyd yn golygu manteisio ar ein cryfderau mewn data iechyd a chreu seilwaith digidol newydd i wneud sefydlu a chyflenwi astudiaeth yn gyflymach, yn fwy effeithlon ac yn fwy arloesol, fel bod y DU yn parhau i fod yn un o’r lleoedd gorau yn y byd i gyflenwi ymchwil arloesol.

  Mae cyllidwyr y DU hefyd yn datblygu strategaethau ac yn ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol yn gynyddol yn rhan o’n hymarferion gwaith arferol a’n diwylliant ac yn amlinellu eu bwriadau o ran sbarduno a hybu ‘sero net’. Mae gan yr ymdrech ymchwil ac arloesedd ran hanfodol hefyd i helpu i gyflenwi systemau iechyd a gofal carbon isel, cynaliadwy a chadarn drwy fuddsoddi’n strategol i gefnogi’r nodau hyn.

---

[6] https://www.ukri.org/publications/ukri-strategy-2022-to-2027/
[7] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1013597/life-sciences-vision-2021.pdf
[8] https://www.gov.uk/government/publications/the-future-of-uk-clinical-research-delivery/saving-and-improving-lives-the-future-of-uk-clinical-research-delivery

Fel y dengys y rhestr hir hon o'r datblygiadau diweddar, mae hwn yn gyfnod o newid cyflym a sylfaenol yn y dirwedd ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU. Mae hyn yn golygu bod cyfleoedd i wella ymchwil ac arloesedd yng Nghymru yn ogystal â pheryglon nad yw cymuned ymchwil Cymru a GIG Cymru a system gofal cymdeithasol Cymru yn elwa fel y dylent ar y rhain a buddsoddiadau newydd eraill mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ac ar y datblygiadau mewn gofal a thriniaeth y maent yn eu cynhyrchu.

Mae gweddill y cynllun hwn yn bwriadu nodi sut yr ydym yn amcanu ymateb i gyflymder y newid a gwneud y gorau o'r cyfleoedd i wella ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ar gyfer pob un o'r pedwar nod a ddisgrifir yn adran 2, rydym yn darparu asesiad o'r sefyllfa bresennol a chrynodeb o'r datblygiadau diweddar, ac rydym yn amlinellu nifer o gamau gweithredu arfaethedig yn adrannau 5–8 isod. Yna, rydym yn gorffen yn adran 9 â nifer o feysydd gwaith trawsbynciol sy'n ymwneud â phob un o'n pedwar prif nodyn.

## 5. Gosod yr agenda ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol

Rydym yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid, gan gynnwys cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd i osod yr agenda ar gyfer ymchwil a datblygu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan hybu ymchwil fel sbardun arloesedd a gwelliant ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

### 5.1 Datblygu strategaethau ymchwil ar gyfer Cymru a'r DU

Credwn y dylai fod pob sefydliad iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru fod â – neu fod yn rhan o – strategaeth ar gyfer ymchwil ac arloesedd, a dylent fod â threfniadau clir ar gyfer arweinyddiaeth ymchwil ac arloesedd ar lefel bwrdd neu ar lefel uwch-dîm rheoli. Ein swyddogaeth yw gweithio gyda sefydliadau i'w helpu i ddatblygu a chyflenwi eu strategaethau a'u cynlluniau ymchwil, gan gynnig ein gwybodaeth ehangach am y dirwedd a'r ecosystem ymchwil a darparu cefnogaeth ac ymgysylltiad adeiladol. Dyma rai enghreifftiau:

- **Gofal cymdeithasol.** Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd Gofal Cymdeithasol Cymru *Strategaeth ymchwil a datblygu gofal cymdeithasol i Gymru 2018–2023*[9] mewn partneriaeth ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Bu gweithredu'r strategaeth yn ganolog wrth fynd ag ymchwil gofal cymdeithasol rhagddi, yn enwedig mewn meysydd megis defnyddio data sydd eisoes yn

[9] https://gofalcymdeithasol.cymru/cms-assets/documents/Strategaeth-ymchwil-a-datblygu-2018-23-Cymraeg.pdf

bodoli a data a gesglir yn rheolaidd, cynnwys y cyhoedd, pennu blaenoriaethau ar gyfer galwadau ariannu yn ogystal ag amrywiaeth o fentrau i wella mynediad ymchwil i dystiolaeth a'r broses o'i mabwysiadu a'i rhoi ar waith. Er ein bod wedi gwneud cynnydd da ar weithredu elfennau o'r strategaeth, mae bylchau mewn sgiliau gwerthuso polisïau ac ymchwil ar draws gofal cymdeithasol oedolion a phlant, yn ogystal ag yn y seilwaith, y capasiti a'r gallu i wneud gwaith ymchwil ac i'w ddefnyddio i gyfoethogi polisïau ac ymarferion. Mae gwaith wedi dechrau i lunio'r camau nesaf o ran gweithio mewn partneriaeth â thimau polisi Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, sef ynghylch datblygu ein gweithlu o ymchwilwyr ar gyfer y dyfodol drwy Gyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a thrwy gryfhau arweinyddiaeth gofal cymdeithasol i oedolion ac fe'i hadlewyrchir yn y cynllun hwn.

- **Canser.** Ym mis Gorffennaf 2022, gwnaethom gyhoeddi strategaeth ymchwil canser cydgysylltiedig cyntaf Cymru[10]. Fe'i datblygwyd mewn partneriaeth â Rhwydwaith Canser Cymru a Chanolfan Ymchwil Canser Cymru, gyda chyfraniad gan gleifion, aelodau o'r cyhoedd ac ymchwilwyr canser eraill, ac mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar chwe thema ymchwil â blaenoriaeth lle mae hanes o ragoriaeth eisoes yng Nghymru y gellir eu datblygu ymhellach i arwain yn rhyngwladol. Y nod yw datblygu màs critigol a llwyfan gynaliadwy ar gyfer ymchwil canser ar gyfer y themâu â blaenoriaeth y gall cryfderau eraill ddod i'r amlwg ohonynt yn ddiweddarach. Mae'r themâu a argymhellir yn cyd-fynd yn dda â mentrau a rhaglenni cenedlaethol Cymru a'r DU gyfan. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd i gydweithredu ymchwil ar draws themâu mewn canser a chydag ymchwil nad yw'n ganser yn ogystal â phartneriaid yn y trydydd sector a phartneriaid y diwydiant.

- **Genomeg.** Rydym wrthi'n gweithio gyda chydweithwyr polisi sy'n arwain ar gynlluniau gofal iechyd genomeg Cymru mewn ymateb i strategaeth genomeg llywodraeth y DU[11], er mwyn sicrhau yr adlewyrchir rhagoriaeth ac arbenigedd ymchwil Cymru mewn cynlluniau gweithredu cenedlaethol a'r DU a bod ymchwilwyr Cymru'n gallu arwain a chyfrannu at y cyfleoedd sy'n deillio o'r ymrwymiadau a rennir ar lefel y DU (megis *Our Future Health* a menter genomeg weithredol y DU y Cyngor Ymchwil Feddygol). Gan weithio mewn cydweithrediad ag ymchwilwyr, cleifion a sefydliadau allweddol, gan gynnwys Parc Geneteg Cymru, Partneriaeth Genomeg Cymru a Gwasanaeth Geneteg Meddygol Cymru Gyfan, rydym yn ymgymryd ag ymarfer cwmpasu ar hyn o bryd er mwyn asesu meysydd cryfder, blaenoriaethau a meysydd rhagoriaeth sy'n dod i'r amlwg a chefnogi datblygiad strategaeth ymchwil genomeg.

---

[10] https://walescancerresearchcentre.org/wp-content/uploads/CReSt-Welsh-FINAL.pdf
[11] https://www.gov.uk/government/publications/genome-uk-the-future-of-healthcare

- **Clefydau prin.** Mae cynllun gweithredu clefydau prin 2022–26 Cymru[12] a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn amlinellu nifer o gamau i godi proffil ymchwil clefydau prin ac mae'n mynegi pwysigrwydd y gallu i gael gafael ar ddiagnosteg a thriniaethau ar gyfer clefydau prin a chyfranogiad mewn astudiaethau ymchwil.

Byddwn yn parhau i geisio cyfleoedd i weithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, y GIG ac ym maes gofal cymdeithasol wrth ddatblygu strategaethau effeithiol a chyflawnadwy ar gyfer ymchwil sy'n cyd-fynd yn dda â strategaethau a chynlluniau sefydliadol ehangach ac sydd wedi eu hintegreiddio iddynt. Dyma'r camau penodol:

- Byddwn yn gweithio gyda byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau y GIG i hybu datblygiad eu strategaethau ymchwil ac arloesedd, a chydgynhyrchu fframwaith a rennir ar gyfer gwreiddio ymchwil yn y GIG, gan asesu'r capasiti ymchwil, yr ymgysylltiad a'r hyn a gyflenwir.
- Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal trafodaethau cynnar â rhanddeiliaid ynghylch cydweithredu yn y dyfodol ar strategaethau a chynlluniau ymchwil iechyd y cyhoedd ac ym maes nyrsio a'r proffesiynau perthynol i iechyd ar gyfer Cymru – yn debyg i'r gwaith a amlinellir uchod mewn cysylltiad â chanser, genomeg a gofal cymdeithasol.
- Byddwn yn sefydlu cyfarfodydd rheolaidd gyda chyllidwyr ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol allweddol y DU er mwyn hybu gwell ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill
- Byddwn yn ceisio ymgysylltu cymaint â phosibl mewn fforymau a thrafodaethau sydd ar lefel y DU ar y cam cynharaf mewn cysylltiad â strategaethau ymchwil – mae enghreifftiau'n cynnwys strategaeth Ymchwil ac Arloesi yn y DU a gyhoeddwyd yn ddiweddar, strategaethau a chynlluniau cynghorau ymchwil a fydd yn dilyn, yn enwedig y Cyngor Ymchwil Feddygol a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ac Innovate UK; a strategaethau cyllidwyr elusennol allweddol fel Wellcome Trust, Cancer Research UK a British Heart Foundation.

## 5.2 Nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol

Mae sicrhau bod yr ymchwil yr ydym ni a chyllidwyr eraill yn ei chomisiynu yn mynd i'r afael â chwestiynau sy'n adlewyrchu angen y cyhoedd, y polisi a'r ymarfer yn hanfodol er mwyn cynyddu gymaint â phosibl y tebygolrwydd y bydd ymchwil yn cael effaith wirioneddol ac o werth. Mae nodi anghenion a phennu blaenoriaethau o'r fath fwyaf effeithiol pan y'u gwneir â chyfranogiad y rhai a fydd yn defnyddio canfyddiadau'r ymchwil a'r rhai y bydd y canfyddiadau hynny yn effeithio arnynt.

[12] https://collaborative.nhs.wales/implementation-groups/rare-diseases/wales-rare-diseases-action-plan-2022-2026/

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi datblygu ein proses blaenoriaethu ymchwil a chynnal peilot arni, gan gymryd egwyddorion Partneriaeth Pennu Blaenoriaethau Cynghrair James Lind, ond gan eu haddasu a'u cymhwyso mewn modd symlach er mwyn nodi'r 10 cwestiwn ymchwil sydd â blaenoriaeth mewn meysydd y mae anghenion dybryd cyhoeddus arnynt, ac anghenion dybryd sy'n ymwneud â pholisïau ac ymarferion. Cynlluniwyd ein dull â'r nod o fod yn fwy cyflym na Phartneriaeth Pennu Blaenoriaethau Cynghrair James Lind traddodiadol ac fe'i crëwyd mewn partneriaeth â Chynghrair James Lind, ac â chydweithwyr Gofal Cymdeithasol Cymru y cynhaliwyd cynllun peilot ag ef.

Mae'r broses yn cynnwys – gofyn am safbwyntiau ar y cwestiynau a'r materion sy'n bwysig oddi wrth amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys ymarferwyr a'r rhai y mae angen gwasanaethau a/neu gefnogaeth arnynt neu'r rhai sy'n derbyn hyn; grwpio ymatebion cychwynnol yn themâu; nodi a rhestru'r cwestiynau pwysicaf sydd yn y themâu hynny; trosi'r rhestr o bryderon a chwestiynau a restrir yn gwestiynau ymchwil a osodir yng nghyd-destun y dystiolaeth bresennol; ac yna ceisio gosod y cwestiynau ymchwil hynny mewn galwadau ariannu a gynhelir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru neu gyllidwyr ymchwil eraill megis y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal, y Cyngor Ymchwil Feddygol neu'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

Roedd yr ymarfer cyntaf o'r fath yn mynd i'r afael â'r pwnc o beth yw'r ffordd orau inni ddarparu gofal a chefnogaeth gynaliadwy er mwyn helpu pobl hŷn i fyw bywydau hapusach a mwy gwerth chweil. Cyhoeddwyd adroddiad ar yr ymarfer sy'n disgrifio'r deg prif flaenoriaeth ymchwil[13] ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ac mae'r blaenoriaethau wedi eu rhannu â chyllidwyr eraill yn y DU. Mae ail ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf wrth ddatblygu gwasanaethau cymorth i deuluoedd yng Nghymru ar y gweill, ac unwaith eto, mae hwn mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru.

O fis Ebrill 2023 ymlaen, bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ariannu Canolfan Dystiolaeth sy'n darparu capasiti ar gyfer synthesis tystiolaeth cyflym ac ymchwil sylfaenol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion o ran polisïau, ymarferion a rhanddeiliaid cyhoeddus. Trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, bydd y Ganolfan Dystiolaeth hefyd yn darparu strwythurau a phrosesau ar gyfer adnabod a blaenoriaethu cwestiynau ymchwil y mae angen atebion arnynt drwy synthesis tystiolaeth neu ymchwil sylfaenol newydd.

[13] https://ymchwiliechydagofalcymru.org/mae-blaenoriaethau-ymchwil-newydd-yw-anelu-helpu-pobl-hyn-i-fyw-bywydau-hapusach-mwy-boddhaus

Dyma'r camau allweddol:

- Byddwn yn cynnal rhagor o ymarferion pennu blaenoriaethau – dwy y flwyddyn mae'n debyg – sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau Gweinidogion Cymru a'u *Rhaglen Lywodraethu* a blaenoriaethau neu bynciau sy'n deillio o'n hymgysylltiad â sefydliadau rhanddeiliaid eraill yng Nghymru. Mae'r pynciau y gellid eu harchwilio yn 2023 yn cynnwys iechyd menywod ac anghydraddoldeb rhywedd mewn ymchwil, ac integreiddio gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc.
- Byddwn yn defnyddio'r prosesau pennu blaenoriaeth hyn yn fwy gweithredol ac eglur er mwyn cyfrannu at ein rhaglenni comisiynu ymchwil ein hunain (gweler adran 6 isod) a darparu syniadau a blaenoriaethau ar gyfer ymchwil i gyllidwyr eraill.
- Byddwn yn parhau i ymgysylltu â phwyllgorau ariannu a byrddau rhaglenni y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal yr ydym yn partneru â nhw ac â thîm nodi a blaenoriaethu syniadau y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal a leolir yn NETSCC yn Southampton, er mwyn rhannu anghenion a blaenoriaethau ymchwil a chynyddu nifer y cwestiynau ymchwil o Gymru a ystyrir ar gyfer galwadau a gomisiynir yn y rhaglenni hyn.

## 6. Ariannu a threfnu gwaith ymchwil

Rydym yn cydlynu ac yn cysylltu ag asiantaethau ariannu ymchwil yng Nghymru ac ar lefel y DU i gynllunio ac ariannu ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Ein nod yw gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau, a sicrhau bod Cymru'n ymgysylltu cymaint â phosibl o ran ariannu ymchwil yn y DU ac yn rhyngwladol. Rydym yn cynnal ein cynlluniau ariannu ein hunain ac yn ymgysylltu mewn cynlluniau traws-gyllidol a phartneriaeth ag eraill.

### 6.1 Swyddogaeth a threfniadaeth ein cynlluniau ariannu ein hunain

Mae gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru amrywiaeth o gyfleoedd ariannu ymchwil sy'n seiliedig ar brojectau drwy gyfres o gynlluniau a dyfarniadau. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn cynnwys rhaglen Ymchwil er budd Cleifion a'r Cyhoedd Cymru ar gyfer y GIG, a galwadau am grant ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ar wahân sy'n gweithredu fel canghennau penodol i'n Cynllun Ariannu Ymchwil. Mae'r cynlluniau hyn wedi gweithredu galwadau blynyddol (neu bob dwy flynedd) â phroses ymgeisio dau gam.

Gall ystod o fanteision gronni o'r cynlluniau hyn gan gynnwys: ariannu prosiectau sy'n cael effaith sylweddol sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol ag anghenion polisi ac ymarfer yng Nghymru a thu hwnt; cyfraniadau at ddatblygu sylfaen dystiolaeth gyffredinol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau mewn iechyd a gofal

cymdeithasol; gwella’r capasiti a’r gallu, gan ganiatáu cyfle i unigolion ddatblygu portffolio neu arwain tîm ymchwil am y tro cyntaf yn aml; cymorth ar gyfer gwaith rhagarweiniol, peilot neu ddichonoldeb sy’n arwain at geisiadau ariannu sy’n fwy o ran maint, sy’n fwy uchelgeisiol, yn enwedig i brif gyllidwyr y DU.

Er mwyn cynyddu gymaint â phosibl y defnydd o’n cyllid ymchwil ac effaith debygol yr ymchwil a gyllidir gennym, byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Adolygu a symleiddio cynlluniau ariannu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar wahân presennol, er mwyn gwella effeithlonrwydd ein prosesau a chynyddu amlder ein galwadau ariannu a’n cyfleoedd, gan sicrhau bod ymchwil mewn meysydd lle mae datblygu capasiti yn hanfodol, megis gofal cymdeithasol, yn parhau i gael ei diogelu a’i chefnogi’n ddigonol.
- Ceisio ychwanegu cangen a gomisiynwyd i’r trefniadau newydd y gellir ei chysylltu â’r prosesau pennu blaenoriaeth a amlinellir uchod a byddwn yn sicrhau ein bod yn rhagweithiol ac yn ystwyth wrth ariannu ymchwil sy’n mynd i’r afael ag anghenion pwysig a brys gan Lywodraeth Cymru a’r GIG a’r system gofal cymdeithasol yng Nghymru.

## 6.2 Partneriaethau gyda rhaglenni y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal a rhaglenni cyllidwyr eraill

Yn ogystal â rhedeg ein cynlluniau ariannu ymchwil ein hunain, mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn gwneud cyfraniadau cyllid at amrywiaeth o raglenni y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal sy’n cynnig ffrydiau ariannu sylweddol ar gyfer prosiectau mwy o ran maint a phrosiectau mwy uchelgeisiol. Mae cyfranogiad Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ein galluogi i gyfrannu at y broses o bennu blaenoriaethau ariannu ac o alw am bynciau ar gyfer y rhaglenni hyn ac mae’n rhoi cyfle i ymchwilwyr o sefydliadau Cymru gyflwyno ceisiadau iddynt. Rhaglenni y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal yr ydym yn partneru â nhw ac yn cyfrannu atynt yw:

- Gwerthuso Effeithlonrwydd a Mecanwaith (cyllidir ar y cyd â’r Cyngor Ymchwil Feddygol);
- Asesu Technoleg Iechyd;
- Ymchwil Gwasanaeth Iechyd a Chyflenwi; ac
- Ymchwil Iechyd Cyhoeddus (PHR)

Hefyd, mae’r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal yn gweinyddu’r rhaglen ymchwil iechyd byd-eang gyda chyllid Cymorth Datblygu Tramor ar ran llywodraeth y DU, ac mae’r rhaglen hon yn agored i bob ymchwilydd ledled y DU.

Mae’r gallu i gael gafael ar y cynlluniau hyn yn galluogi ein hymchwilwyr i gystadlu ar lefel y DU ac yn rhoi’r cyfle i greu incwm ymchwil sylweddol i Gymru drwy arwain neu gydweithredu ar brosiectau sy’n debygol o gael effaith gref.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru hefyd yn gweithio gyda chyllidwyr eraill, gan gynnwys ein timau cyfatebol yn adrannau iechyd eraill y DU, cynghorau ymchwil Ymchwil ac Arloesi yn y DU a chyllidwyr ymchwil elusennol, i greu cyfleoedd ariannu newydd mewn meysydd o fudd ar y cyd a lle mae angen ymddangosiadol.

Rydym yn cydariannu o fewn trefniadau partneriaeth â rhai cyllidwyr eraill gan gynnwys cyfranogi ym Mhartneriaeth Ymchwil Atal traws-gyllidol y DU sy'n werth £50 miliwn; cydariannu portffolio o brosiectau drwy ymchwil Joint Programme for Neurodegenerative Disease (JPND) gyda'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon a Chymdeithas Alzheimer's; buddsoddi mewn rhaglen ymchwil i greithiau a llawdriniaeth adluniol ym Mhrifysgol Abertawe gyda Scar Free Foundation; a chydariannu prosiectau ymchwil llygaid â Fight For Sight a Phrif Gynghorydd Optometreg Llywodraeth Cymru.

Rydym yn aelod o fforwm cyllidwyr rhyngwladol Sicrhau Gwerth mewn Ymchwil, ac yn gweithio gyda chyllidwyr eraill, gan gynnwys y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal (Lloegr), Patient-Centred Outcomes Research Institute (UDA), ZonMW (yr Iseldiroedd), Bwrdd Ymchwil Iechyd (Iwerddon), Forte (Sweden) ac eraill, i wella ymarferion ariannu ymchwil er mwyn sicrhau bod yr ymchwil a gyllidir gennym yn cael cymaint o effaith â phosibl.

Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Parhau i sicrhau ein bod yn ymgysylltu cymaint â phosibl (ochr yn ochr ag adrannau cyfatebol o'r Alban a Gogledd Iwerddon) â chynlluniau ariannu a arweinir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal yn Lloegr ac annog yn gryf (drwy ein cyllid craidd ar gyfer canolfannau ac unedau ymchwil er enghraifft) sefydliadau Cymru i wella eu perfformiad o ran sicrhau cyllid o'r ffynonellau hyn a ffynonellau ariannu eraill yn y DU
- Ceisio cyfleoedd eraill am bartneriaethau cydariannu â chyllidwyr eraill yn enwedig pan fyddant yn diwallu anghenion ymchwil Cymru ac yn ysgogi ac yn cefnogi datblygiad capasiti a gallu ymchwil yng Nghymru

## 6.3 Ariannu seilwaith ar gyfer canolfannau ac unedau ymchwil

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn darparu cyllid craidd ar gyfer amrywiaeth o ganolfannau, unedau neu grwpiau ymchwil a leolir mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Diben ein cyllid craidd yw cefnogi, cynnal a datblygu capasiti a gallu ymchwil yng Nghymru mewn meysydd sy'n berthnasol i anghenion ymchwil yng Nghymru a lle mae màs ymchwil critigol sy'n rhagorol ar lefel y DU ac yn rhyngwladol. Ceir tystiolaeth o hyn drwy arweinyddiaeth academaidd, strategaeth, incwm a pherfformiad grant ymchwil, cyhoeddiadau, partneriaethau, tystiolaeth o barch ac effaith, cynaliadwyedd a chymorth sefydliadol canolfannau o'r fath.

Cylch gwaith craidd pob grŵp yw datblygu, cefnogi a chynnal portffolio ymchwil o ansawdd uchel mewn meysydd y mae angen ymchwil sefydledig ynddynt. Mae portffolios yn cynnwys sicrhau grantiau mawr gan gyllidwyr y DU gan gynnwys cynghorau ymchwil y DU, megis y Cyngor Ymchwil Feddygol, y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal. Yn gyffredinol, rydym yn disgwyl enillion sydd o leiaf pum gwaith yn fwy na'r buddsoddiad. Mewn geiriau eraill, dylai ein cyllid craidd i ganolfan neu uned ei galluogi i ddenu o leiaf pum gwaith cymaint o gyllid ymchwil oddi wrth gyllidwyr eraill dros amser.

Disgwyliwn i grantiau seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ariannu gweithgareddau na ellir eu hariannu fel arfer drwy incwm/grantiau ymchwil allanol – felly ni fyddai grantiau yn arfer ariannu prosiectau ymchwil yn uniongyrchol, ond gallai canolfannau eu defnyddio at ddibenion amrywiol, megis:

- Cynnal rhwydweithiau o ymchwilwyr sydd â budd ac ymchwilwyr cysylltiedig
- Ariannu grwpiau datblygu ymchwil a gweithgareddau blaenoriaethu ymchwil;
- Cefnogi grwpiau cynnwys y cyhoedd arbenigol;
- Darparu rhywfaint o gyllid craidd a phontio fel y gall ymchwilwyr leihau ansicrwydd a darparu cyfleoedd gyrfa cynaliadwy
- Datblygu, cynnal a rhyddhau samplau biolegol ar gyfer ymchwil;
- Darparu capasiti ac arbenigedd craidd ar gyfer cysylltiadau data dienw a diogel;
- Ariannu rhai technegwyr labordy, biowybodegyddion a swyddi technegol eraill;
- Darparu capasiti methodolegol, rheoli treialon neu ystadegol craidd nad yw'n benodol i brosiect;
- Ariannu gweithwyr proffesiynol a gweithgareddau sy'n gweithredu gwybodaeth;
- Darparu capasiti ar gyfer sganio'r gorwel, datblygu ceisiadau ymchwil ac ysgrifennu papurau ar gyfer cyhoeddiadau academaidd;
- Darparu cymorth ar gyfer gweithgareddau hyrwyddo, ymgysylltu a chyfathrebu;
- Dod â gweithgareddau o'r fath at ei gilydd i gefnogi gwaith Canolfan Ymchwil gydlynol.

Er bod metrigau a adroddir yn flynyddol yn awgrymu bod darparu'r math hwn o gyllid yn ffordd hynod effeithiol o gynorthwyo'r broses o sicrhau grantiau, mae'n anodd mesur yr effaith uniongyrchol. Rydym yn casglu amrywiaeth o fetrigau ymchwil ac yn gofyn am adroddiad naratif blynyddol oddi wrth bob canolfan, ac rydym yn cynnal adolygiad blynyddol gyda thîm arweinyddiaeth pob canolfan ac yn cynnig sylwadau ar berfformiad. Yn 2019 y gwnaethom gynnal rownd ariannu ar gyfer canolfannau ac unedau ddiwethaf ac mae'r mwyafrif o'r dyfarniadau cyfredol yn para am gyfnod o bum mlynedd gan ddod i ben ym mis Mawrth 2025, ac felly maent wedi cael dau adolygiad blynyddol yn ystod y rownd ariannu bresennol hyd yma.

Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Byddwn yn parhau i reoli perfformiad pob canolfan ac uned gyfredol yn weithredol er mwyn sicrhau'r disgwyliadau a rennir mewn cysylltiad ag arferion da a pherfformiad, a chynnig rownd arall o sylwadau (ar ddiwedd blwyddyn 3).
- Byddwn yn datblygu fframwaith clir ar gyfer asesu y byddwn yn ei rannu â'r holl ganolfannau ac unedau cyfredol ac yn ei wneud ar gael i eraill er mwyn llywio ein strategaeth ariannu yn y dyfodol.
- Byddwn yn datblygu ein cynlluniau ar gyfer y rownd ariannu nesaf, gan ystyried perfformiad canolfannau ac unedau a ariennir ar hyn o bryd a'r ddadl dros fuddsoddi mewn meysydd eraill. Trwy wneud hynny, byddwn yn ymgysylltu â sefydliadau addysg uwch Cymru i ddeall eu blaenoriaethau strategol a meysydd buddsoddi arfaethedig.
- Yna, byddwn yn datblygu ac yn cynnal galwad ariannu seilwaith newydd a chanddi bwyslais strategol a fydd yn rhoi'r cyfle i grwpiau presennol a grwpiau sy'n dod i'r amlwg wneud cais am gymorth y tu hwnt i fis Mawrth 2025. Mae'r alwad ariannu honno'n debygol o gael ei chynnal ddiwedd 2023/dechrau 2024 er mwyn caniatáu amser digonol i bontio cyllid.

## 7. Meithrin capasiti a gallu mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol

Rydym yn gweithio gyda'n gilydd fel rhwydwaith o brifysgolion, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau y GIG, awdurdodau lleol a darparwyr gofal yng Nghymru i greu a chynnal gallu a chapasiti ym maes ymchwil ac i gefnogi sefydliadau i arwain ac ymgymryd â gwaith ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, a'u cefnogi.

## 7.1 Gyrfaoedd ymchwil a Chyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Yn 2020/21, dechreuodd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru gydadolygiad o'r llwybrau gyrfaoedd a hyfforddiant/datblygiad ar gyfer ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol gyda'r nod o alluogi capasiti a gallu ym maes ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Noda'r adroddiad o adolygiad llwybrau gyrfaoedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, "*Hyrwyddo Gyrfaoedd Mewn Ymchwil*"[14], a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2022, ddau ar bymtheg o argymhellion gyda'r nod o wella cyfleoedd ar draws llwybrau gyrfaoedd ymchwil i ymchwilwyr iechyd a gofal

[14] https://ymchwiliechydagofalcymru.org/newydd-argymhellion-datblygu-ymchwilwyr-iechyd-cymdeithasol-gofal

cymdeithasol yng Nghymru. Tynna’r adolygiad sylw penodol at y swyddogaeth hollbwysig y gall cymorth, canllawiau, cynlluniau mentora ac esiamplau cadarnhaol ei chael wrth greu diwylliant ymchwil ledled y wlad a noda’r angen am gyfleoedd ariannu mwy cynhwysol ar draws y llwybrau gyrfaoedd ymchwil, gan gynnwys, er enghraifft, cynllun disodli cyflog ar gyfer astudiaethau ar lefel ddoethuriaeth a gwell cymorth cyn-ddoethurol a fydd yn caniatáu i ymgeiswyr o Gymru gyflwyno ceisiadau cystadleuol i gyllidwyr y DU gyfan (y llywodraeth, y cyngor ymchwil ac asiantaethau ariannu elusennol yn ogystal â mathau eraill o gyllidwyr).

Rhoddwyd cyfrifoldeb cyffredinol i Grŵp Gweithredu Llwybrau Gyrfaoedd Ymchwil ar y cyd rhwng Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru dros gyfarwyddo yr ymatebion strategol a sefydliadol trosfwaol ar draws (a) strategaeth, cyllid, ac arweinyddiaeth; (b) seilwaith; (c) diwylliant ac ecosystem a (d) cyfathrebu, er mwyn hybu datblygiad capasiti a gallu ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel yng Nghymru. Mewn partneriaeth, byddwn yn ceisio sicrhau dull sy’n codi proffil gyrfaoedd ymchwil yng Nghymru ac yn unioni gwahaniaethau hirsefydlog o ran cyfleoedd datblygu i ymchwilwyr, yn enwedig ar gyfer staff anfeddygol, ac yn hybu cyfrifoldeb a rennir dros ddatblygu gyrfaoedd ymchwil drwy gydweithredu’n well ymhlith rhanddeiliaid allweddol a grwpiau seilwaith.

Byddwn yn gweithio i hybu cyfleoedd i integreiddio ymchwil i hyfforddiant proffesiynol o gam cynnar, yn annog sefydliadau’r GIG ac awdurdodau lleol i flaenoriaethu rhagoriaeth sgiliau ymchwil yn eu gweithlu, yn buddsoddi mewn cyfleoedd ymchwil academaidd, academaidd clinigol ac eraill yn eu sefydliadau, ac yn codi ymwybyddiaeth o waith ymchwil ar draws y sbectrwm o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, eu sefydliadau cyflogi a’u rheoleiddwyr.

Byddwn yn derbyn cyfraniad cynghorol ac yn sicrhau ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid drwy Grŵp Cyngor ar Lwybrau Gyrfaoedd Ymchwil y DU gyfan. Pan nodir angen penodol, bydd Grwpiau Gorchwyl a Gorffen cysylltiedig yn cael eu sefydlu a fydd yn adrodd yn ôl i’r Grŵp Gweithredu Llwybrau Gyrfaoedd Ymchwil. Dros amser, bydd yr ymrwymiad cydweithredol a chydgysylltiedig i ddatblygu datblygiad gyrfaoedd ymchwilwyr ac i greu capasiti ar draws y parthau eang, fel y nodir yn yr argymhellion sy’n deillio o adolygiad llwybrau gyrfaoedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, “*Hyrwyddo Gyrfaoedd Mewn Ymchwil*”, yn sicrhau bod ein cenedlaethau o ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol wedi eu paratoi a’u cynorthwyo’n well i arwain a chyflenwi ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol rhagorol

Fel cam allweddol yn y broses o fynd i’r afael a’r argymhellion, sefydlwyd Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru fel colofn graidd llwybr gyrfaoedd cenedlaethol sy’n darparu cymorth, canllawiau a hyfforddiant i bob ymchwilydd, ar bob cam ac ar draws pob proffesiwn, gyda’r nod o ddatblygu cymuned o ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol cyfunol sy’n sicr o amgylchedd cefnogol sy’n caniatáu iddynt gynnal eu

gwaith ymchwil gydag effaith a chynnydd ar hyd eu llwybrau gyrfaoedd ymchwil unigol.

Bydd Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn:

- Cydlynu a goruchwylio amrywiaeth o gynlluniau dyfarniadau ymchwil personol (a'u targedu yn eang lle bo angen) ar gyfer ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar draws proffesiynau ac ar wahanol gamau yn eu gyrfaoedd
- Cyhoeddi data cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ymchwilwyr a datblygu cynlluniau gweithredu er mwyn helpu i hwyluso cynrychiolaeth gyfartal pob grŵp, ar draws camau gyrfaoedd a phroffesiynau ymhlith poblogaeth ymchwilwyr Cymru
- Bwrw ymlaen â'r dysgu a datblygiad a'r fentoriaeth i'r unigolyn a chymheiriaid sydd eu hangen ar ddeiliaid ein dyfarniadau iechyd a gofal cymdeithasol personol i ddatblygu eu gyrfaoedd ymchwil
- Meithrin rhyngweithiadau rhyngddisgyblaethol ar draws y gymuned gyfadran o ddeiliaid dyfarniadau iechyd a gofal cymdeithasol personol o bob cefndir ac o bob ardal o Gymru
- Galluogi cyfleoedd i rannu ymchwil cyfadran o ansawdd uchel â chymunedau perthnasol yn y DU ac yn rhyngwladol gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o broffil gwaith ymchwil Cymru a hybu cyfleoedd gyrfaoedd ymchwil yr ymchwilwyr eu hunain.

## 7.2 Arwain a chefnogi ymchwil yn y GIG yng Nghymru

Mae gwaith ymchwil a wneir yn y GIG yng Nghymru drwy ein byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau GIG yn cynorthwyo'r ddealltwriaeth fyd-eang o iechyd, clefydau a thriniaethau a chanlyniadau, ac mae'n cynnig mynediad at ddewisiadau triniaeth newydd i gleifion Cymru, a all fod yn enwedig o bwysig ar gyfer cyflyrau pan fo'r holl ddewisiadau eraill eisoes wedi eu cynnig. Dangosodd pandemig COVID-19 allu'r GIG – yng Nghymru a ledled y DU gyfan – i gydweithio i gyflenwi gwaith ymchwil arloesol ar gyfradd uchel – yn fwyaf nodedig mewn treialon platfform ar gyfer therapiwteg ac yn y treialon ar gyfer brechlynnau COVID-19. Cyflenwyd y gwaith ymchwil hwn mewn llawer o ysbytai a lleoliadau gofal iechyd ledled Cymru a'r DU i raddau helaeth, yn hytrach nag mewn canolfannau academaidd.

Rydym hefyd yn gwybod bod sefydliadau'r GIG sy'n cymryd rhan weithredol mewn gwaith ymchwil clinigol yn gweld gwell canlyniadau iechyd a chyfraddau marwolaeth is, nid dim ond i'r cleifion hynny sy'n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil, ond i bob claf[15]. Hefyd, mae buddsoddi mewn ymchwil clinigol yn arwain at fanteision

[15] https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC4342017/

economaidd i'r GIG a all gynorthwyo gwasanaethau rheng flaen, gan gynnwys datblygu a chadw'r gweithlu clinigol[16].

Mae adrannau iechyd pob un o bedair gwlad y DU wedi cytuno ar ddull ar y cyd o gyflenwi ymchwil clinigol yn y dyfodol ac maent wrthi yn ei roi ar waith yn awr[17]. Gydag ymrwymiadau gweinidogol gan y llywodraeth, y nod yw sicrhau bod ein gwasanaethau cyflenwi ymchwil yn canolbwyntio ar bobl; wedi eu symleiddio ac yn effeithlon; a alluogir gan ddata ac offer digidol; a gefnogir drwy weithlu ymchwil cynaliadwy a bod ymchwil wedi ei gwreiddio yn y GIG.

Mae amrywiaeth sylweddol o weithgareddau eisoes ar y gweill lle'r ydym yn gweithio gyda'n partneriaid yn y DU, er enghraifft wrth ailosod portffolio ymchwil y GIG – gan gynnal adolygiad cynhwysfawr a manwl o'r holl astudiaethau cyfredol er mwyn asesu'r cynnydd a gweithio gyda chyllidwyr a noddwyr astudiaethau i benderfynu a yw astudiaethau ar y trywydd iawn ac a ellir eu cwblhau[18]. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y DU i wella cyflymder ac effeithlonrwydd y broses o sefydlu astudiaethau, er enghraifft wrth ddatblygu Cymeradwyaeth yr Awdurdod Ymchwil Iechyd ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (y broses gyfunol ar gyfer y GIG yng Nghymru a Lloegr sy'n cyfuno asesiad llywodraethu a chydymffurfiaeth gyfreithiol â barn pwyllgorau moeseg ymchwil annibynnol) a chyflwyno'r Adolygiad Gwerth Contractau Cenedlaethol, sef dull safonol cenedlaethol o bennu pris ar gyfer ymchwil contractau masnachol.

Rydym hefyd yn cydnabod, o adroddiad diweddar Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain, fod gallu cleifion i gael gafael ar ymchwil y diwydiant wedi gostwng yn sylweddol yn y DU ac mae angen inni chwarae ein rhan gan weithio i wella prosesau sefydlu treialon clinigol y diwydiant yn ogystal â denu ymchwil fasnachol ac ymchwil masnachol cydweithredol er mwyn hybu capasiti a diwylliant ymchwil y GIG[19]. Mae cyfle gwirioneddol i Gymru drefnu ei hun yn fwy effeithiol a bod yn fwy ystwyth ac ymatebol yn ei chynnig i ddiwydiant.

Mae angen inni wneud yn well yng Nghymru yn awr, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd gennym yn ystod yr ymateb i'r pandemig. Rydym wedi dangos grym cydweithredu ar draws ffiniau sefydliadol y GIG, yn fwyaf nodedig drwy ddull Cymru'n Un o gyflenwi ymchwil. Mae angen bellach inni wneud gweithio ar sail 'Cymru'n Un' y dewis diofyn pryd bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae gan hyn botensial i ddarparu newid sylweddol i greu gwasanaeth mwy syml i ymchwilwyr a noddwyr, gan leihau achosion o ddyblygu a chynyddu gallu pobl Cymru i gael gafael ar ymchwil. Ond mae hefyd yn golygu newid y ffordd yr ydym yn gweithio ar draws

---

16 http://www.healthandcareresearchwales.org/sites/default/files/2020-10/impact_value_research_supported_NHS_organisations_Wales_2020.pdf
17 https://www.gov.uk/government/publications/the-future-of-uk-clinical-research-delivery
18 https://www.nihr.ac.uk/researchers/managing-research-recovery.htm
19 rescuing-patient-access-to-industry-clinical-trials-in-the-uk.pdf (abpi.org.uk)

byrddau ac ymddiriedolaethau y GIG, a mabwysiadu dull mwy cyfunol o flaenoriaethu, cynllunio a threfnu darpariaeth ymchwil.

Amlyga argymhellion allweddol sy'n deillio o adolygiad llwybrau gyrfaoedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, "*Hyrwyddo Gyrfaoedd Mewn Ymchwil*", bwysigrwydd hybu'r diwylliant a'r ecosystem ymchwil yn y GIG. Er bod pob sefydliad GIG yng Nghymru yn weithredol o ran ymchwil, mae'n parhau i gynnwys dim ond cyfran fach o'n gweithlu GIG, hyd yn oed yn ein sefydliadau sy'n fwyaf gweithredol o ran ymchwil.

Credwn fod gan bob sefydliad GIG a phob aelod o staff ran fwy sylweddol i'w chwarae wrth hwyluso amgylchedd ymchwil cefnogol ac sy'n canolbwyntio ar bobl, ac y bydd cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ymchwil ymhlith y gweithlu ehangach yn sicrhau y rhoddir cyfle i fwy o bobl yng Nghymru gymryd rhan mewn ymchwil. Rydym yn cydnabod manteision gwreiddio ymchwil mewn llwybrau gofal, codi cyflenwi ymchwil allan o'r gwasanaeth rheng flaen, lleihau'r baich ar y GIG a gwneud y defnydd gorau o gyfleusterau ymchwil clinigol a modelau cyflenwi o bell.

Mae adroddiadau gan gyrff fel Academi'r Gwyddorau Meddygol[20] a Choleg Brenhinol y Meddygon[21] wedi pwysleisio gwerth ymchwil i'r GIG. Mae sicrhau ymgysylltiad gwirioneddol a pharhaus â gwaith ymchwil yn rhan o strategaethau, fframweithiau a phrosesau cynllunio allweddol Llywodraeth Cymru ac fe'i hintegreiddir yn fframweithiau cynllunio a chyflenwi GIG Cymru. Mae angen gweithio i sicrhau bod ymchwil yn bresennol mewn datblygiadau newydd megis Gweithrediaeth y GIG a'i bod wedi ei gwreiddio mewn cynlluniau a rhwydweithiau clinigol cenedlaethol. Ymchwil yw un o'r tair colofn yn y rhaglen waith statws dynodiad prifysgol i sicrhau bod synergeddau clir yn cael eu datblygu gydag arloesedd a hyfforddiant ac addysg. Dylid blaenoriaethu datblygiad amgylchedd ymchwil sy'n meithrin i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn y sefydliadau GIG a ddylai weithio i wreiddio ymchwil yn eu strategaethau ar gyfer recriwtio a chadw staff a datblygu'r gweithlu. Dylai sefydliadau'r GIG fuddsoddi mewn cefnogaeth i yrfaoedd ymchwil a datblygiad ymchwilwyr, gweithio i sicrhau amser neilltuedig i'w hymchwilwyr, datblygu swyddi arweinyddiaeth ymchwil ac archwilio cyfleoedd i sicrhau mwy o swyddi academaidd clinigol.

Er mwyn diweddaru a gwella fframwaith cyflenwi ymchwil a datblygu presennol y GIG, mae rhaglen waith newydd wedi dechrau i lunio fframwaith asesu newydd ar gyfer ymchwil yn GIG Cymru a fydd yn cynorthwyo sefydliadau'r GIG i wreiddio ymchwil mewn gwasanaethau gofal iechyd craidd ac ategu gwaith ehangach yn y DU ar yr agenda cyflenwi ymchwil glinigol. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n

[20] https://acmedsci.ac.uk/policy/policy-projects/nhs-academia-interface
[21] https://www.rcplondon.ac.uk/projects/outputs/research-all-developing-delivering-and-driving-better-research

gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r GIG, hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu cynlluniau i gefnogi a hwyluso'r proffesiynau nyrsio, bydwreigiaeth, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a gwyddorau iechyd i groesawu ymchwil yn rhan o'u swyddogaethau a'u llwybrau gyrfaoedd. Mae mwy o amlygrwydd ar lefel bwrdd a chydag uwch-arweinwyr rheoli a chlinigol yn hanfodol ac mae gan bob sefydliad GIG hyrwyddwr ymchwil bwrdd a nodwyd trwy aelod annibynnol.

Yn 2022, ffurfiwyd grŵp arweinyddiaeth ymchwil a datblygu GIG newydd a chanddo aelodaeth o bob un o fyrddau ac ymddiriedolaethau y GIG ac o Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Fe'i cadeirir gan un o Gyfarwyddwyr ymchwil a datblygu y GIG a'i ddiben yw sbarduno ymchwil yn y GIG yng Nghymru a darparu cyngor i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae cadeirydd grŵp arweinyddiaeth ymchwil a datblygu y GIG yn aelod o Fwrdd Cynghori Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru sy'n arwain y broses dynodi prifysgol (a'i hadnewyddiad cyfnodol) i fyrddau ac ymddiriedolaethau GIG i sicrhau ei bod yn cynnwys cyfres ystyrlon ac uchelgeisiol o ymrwymiadau i ymchwil ac arloesedd.
- Byddwn yn cydgynhyrchu, gyda sefydliadau GIG a rhanddeiliaid eraill, fframwaith asesu newydd ar gyfer ymchwil yn y GIG yng Nghymru ac yn ei ddefnyddio yn ein hadolygiadau blynyddol o bob bwrdd ac ymddiriedolaeth y GIG i'w cynorthwyo i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gwreiddio ymchwil mewn gwasanaethau gofal iechyd craidd a lleihau'r baich ar wasanaethau rheng flaen drwy wahanol fodelau cyflenwi
- Byddwn yn sicrhau mai gweithio ar sail 'Cymru'n Un' ar gyfer cyflenwi ymchwil fydd y dewis diofyn pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, gan ganolbwyntio ein buddsoddiad cyflenwi ymchwil yn y meysydd sydd o'r budd a'r gwerth ychwanegol mwyaf i Gymru a gweithio i sefydlu dull cyfunol ac a gynlluniwyd o gyflenwi ymchwil.
- Byddwn yn cyflwyno ein cynlluniau ymgysylltu â diwydiant i ddarparu gwasanaeth cydlynol ac o ansawdd uchel i bartneriaid yn y diwydiant sy'n dymuno ymgymryd ag ymchwil fasnachol yng Nghymru, gan gynyddu proffil Cymru yn fyd-eang fel man sy'n darparu yn ddibynadwy ac yn effeithiol. Byddwn yn hybu ac yn cefnogi partneriaethau ymchwil cydweithredol y GIG, academaidd a diwydiant sy'n datblygu ledled y Deyrnas Unedig.
- Byddwn yn lleihau neu'n dileu dyblygu ac yn cynyddu cyflymder ac effeithlonrwydd prosesau sefydlu a chyflenwi astudiaethau ac yn monitro ac yn adolygu metrigau perfformiad astudiaethau.
- Byddwn yn gweithio i ddatblygu cyfleoedd i staff y GIG ddatblygu eu gyrfaoedd ymchwil drwy'r Gyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal a llwybrau eraill, ac i sicrhau bod cyfleoedd ar gael i grwpiau proffesiynol megis nyrsys, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a gwyddonwyr clinigol sydd wedi

tueddu i fod â mynediad gwael at raglenni sydd eisoes yn bodoli yn y gorffennol ac amser neilltuedig cyfyngedig ar gyfer gwaith ymchwil.

- Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu cyfleoedd datblygu a gyrfaoedd sefydlog i'r rhai sy'n gweithio yn swyddfeydd ymchwil a datblygu y GIG ac ym maes cyflenwi ymchwil.

## 7.3 Arwain a chefnogi ymchwil ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru

Yn y gorffennol, mae gwaith ymchwil ym maes gofal cymdeithasol yn y DU wedi bod o dan anfantais ddifrifol o'i gymharu â gwaith ymchwil ym maes gofal iechyd, ac er bod Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi gwneud cynnydd da o ran cefnogi a datblygu ymchwil gofal cymdeithasol, mae bwlch mawr o hyd o ran capasiti a darpariaeth, ac mae buddsoddiadau mewn cyflenwi ymchwil yn dal i ganolbwyntio ar y GIG i raddau helaeth.

Rydym wedi cefnogi amrywiaeth o ymarferion datblygu capasiti ym maes gofal cymdeithasol, gyda'r nod o ddatblygu ymgysylltiad a derbyngarwch ymchwil mewn awdurdodau lleol, er enghraifft drwy fenter Datblygu Ymarfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth (DEEP)[22], cefnogi gyrfaoedd ymchwil ym maes gofal cymdeithasol drwy Rhaglen Datblygu Capasiti Ymchwil a Phartneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Cymru a chefnogi gwaith ymchwil mewn cartrefi gofal drwy rwydwaith Galluogi Ymchwil Mewn Cartrefi Gofal (ENRICH Cymru)[23]. Rydym wedi darparu cyllid craidd i CASCADE, canolfan uchel ei pharch a llwyddiannus sy'n canolbwyntio ar ofal cymdeithasol i blant ac sydd wedi penodi arweinwyr arbenigol ar gyfer gofal cymdeithasol yn ddiweddar.

Mae gennym waith i'w wneud, fodd bynnag, o ran llenwi bylchau mewn sgiliau gwerthuso polisïau ac ymchwil ar draws gofal cymdeithasol i oedolion a phlant, ac o ran datblygu capasiti a gallu ar gyfer gwneud gwaith ymchwil a'i ddefnyddio fel tystiolaeth ar gyfer polisïau ac ymarferion. Mae llywio'r amgylchedd gofal cymdeithasol i sefydlu astudiaethau a deall yr amgylchedd rheoleiddio yn parhau i beri problemau ac nid oes unrhyw seilweithiau ymchwil lleol sy'n debyg i'r rhai yn y GIG i hwyluso twf mewn gweithgarwch ymchwil ac i ddarparu cymorth 'ar lawr gwlad' sy'n atal ymchwil rhag cael ei wreiddio yn y sector gofal cymdeithasol.

Mae ymchwil gofal cymdeithasol i blant yng Nghymru wedi bod yn faes o gryfder yng Nghymru. Fodd bynnag, bu llawer llai o lwyddiant wrth feithrin gwaith ymchwil i ofal cymdeithasol i oedolion, a phrin yw'r ymchwilwyr sy'n weithredol yn y maes hwn yng Nghymru. Mae rhai ymchwilwyr gofal cymdeithasol i oedolion blaenllaw wedi gadael Cymru i ddilyn eu gyrfaoedd mewn mannau eraill. Ar lefel y DU, ceir buddsoddiad

[22] https://www.deepcymru.org/cy/
[23] ENRICH Cymru | Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (https://ymchwiliechydagofalcymru.org/)

cynyddol mewn ymchwil gofal cymdeithasol gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal, ac mae rhwydwaith o ganolfannau ymchwil gofal cymdeithasol yn Lloegr sy'n tyfu.

Bydd ein partneriaeth gref gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (y rheoleiddiwr gofal cymdeithasol sy'n gyfrifol am ddatblygu gweithlu y sector gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yn ogystal â chefnogi ymchwil, arloesedd a gwelliannau yn y gwasanaeth gofal cymdeithasol) yn parhau i fod yn hanfodol bwysig wrth inni ddatblygu sgiliau a chapasiti ymchwil gweithwyr ymchwil proffesiynol a'r gweithlu gofal cymdeithasol a hybu diwylliant o ganolbwyntio ar ymchwil a defnyddio tystiolaeth os ydym yn mynd i weld y newid trawsnewidiol sydd ei angen.

Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Byddwn yn darparu cyllid ar gyfer canolfan ymchwil gofal cymdeithasol i oedolion newydd mewn cydweithrediad a phartneriaeth ag un o'r sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sy'n weithredol yn y maes hwn, â phwyslais penodol ar gapasiti arweinyddiaeth ymchwil uwch.
- Byddwn yn parhau i gynnwys pynciau gofal cymdeithasol yn ein prosesau asesu a blaenoriaethu anghenion ac i fuddsoddi mewn ymchwil a gomisiynir ar ofal cymdeithasol (gweler adran 6)
- Byddwn yn datblygu capasiti a gallu ymchwil ym maes gofal cymdeithasol drwy Gyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Byddwn yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a Gofal Cymdeithasol Cymru i archwilio cymorth seilwaith ymchwil a modelau datblygu capasiti ymchwil sy'n benodol i'r sector ac yn addas i'r diben.
- Byddwn yn gweithio gyda lleoliadau gofal cymdeithasol i ddatblygu a gwreiddio systemau a phrosesau ymchwil i gefnogi a chyflenwi gwaith ymchwil.

## 7.4 Defnyddio data ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol

Mae'r defnydd o ddata rheolaidd at ddibenion ymchwil yn gryfder yng Nghymru – mae ein buddsoddiad hirsefydlog yn SAIL Databank wedi gwneud cyfraniad enfawr at gefnogi gwaith ymchwil yng Nghymru ac mae ar flaen y gad o ran datblygiadau yn y DU ac yn rhyngwladol o ran defnyddio data at ddibenion ymchwil yn saff ddiogel. Mae casglu data iechyd a data nad ydynt yn ddata iechyd mewn platfform cyffredin i'w defnyddio yn fantais benodol, sy'n caniatáu natur amlweddog bywydau pobl i gael ei hystyried, yn hytrach na deall drwy lens profiad sengl fel claf neu ddefnyddiwr gwasanaeth.

Mae buddsoddiad graddfa fawr yn y DU a ddenwyd yn sgil ein cyllid craidd i SAIL wedi arwain at sefydlu mentrau a alluogwyd gan ddata mawr, gan gynnwys: Uned Ymchwil Data Gweinyddol – Cymru; Platfform Data Cyfiawnder Teuluol; a hybiau

data ym meysydd iechyd meddwl a dementia. Mae'r ecosystem gynyddol hon wedi gwella'r galluoedd ymchwil yng Nghymru ac wedi hwyluso mwy o gydweithrediad rhwng academyddion a llunwyr polisi Llywodraeth Cymru.

Mae SAIL yn parhau i chwarae rhan allweddol yn Health Data Research (HDR) UK, a byddwn yn parhau i ddylanwadu a chael budd o'r swyddogaeth sylweddol y gallant ei chyflawni o ran hwyluso data at ddibenion ymchwil.

Nid yw harneisio grym data rheolaidd i gefnogi gwaith ymchwil heb ei heriau, ac mae adroddiad diweddar 'Better, Broader, Safer: Using Health Data for Research and Analysis'[24] yn cynnig disgrifiad manwl o'r problemau a'r atebion posibl. Byddwn yn gweithio gyda HDR UK a'n cymheiriaid mewn Llywodraethau ledled y DU i gydweithredu ar fynd i'r afael â'r problemau hyn. Yn benodol, mae cyfle i fabwysiadu dull mwy bwriadol o ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, gan gydweithio i drawsnewid sut y gellir defnyddio data rheolaidd i gynorthwyo'r ymchwil a gyflenwir yn unol â disgwyliadau ar gyfer defnydd priodol, ac i ailadrodd y gofynion llywodraethu gwybodaeth er mwyn galluogi amgylchedd cefnogol a dealladwy i weithredu ynddo.

Mae Gweledigaeth Ymchwil Glinigol y DU a Gweledigaeth Gwyddorau Bywyd y DU yn darparu'r llyw strategol ar gyfer ein gweithgareddau i greu amgylchedd ymchwil a alluogir yn ddigidol ac sy'n barod ar gyfer y dyfodol yng Nghymru, yn benodol: ehangu model Amgylcheddau Ymchwil yr Ymddiriedir Ynddynt i gysylltu a defnyddio data at ddibenion ymchwil; a chreu cyfres o wasanaethau a ysgogir gan ddata a all gefnogi recriwtio a chyflenwi treialon ymchwil. Byddwn yn gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru a Rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol GIG Cymru a fydd yn gweithredu fel partneriaid strategol i wireddu'r uchelgeisiau am fwy o gymorth a darpariaeth ymchwil digidol.

Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Byddwn yn gweithio gyda HDR UK, GIG Lloegr a phartneriaid eraill i ddatblygu ymhellach ddisgwyliadau a safonau Amgylcheddau Ymchwil yr Ymddiriedir Ynddynt, ac yn cymhwyso'r rhain i amgylchedd yng Nghymru
- Byddwn yn adeiladu ar gryfderau SAIL fel Amgylchedd Ymchwil yr Ymddiriedir Ynddo ac yn hwyluso partneriaeth effeithiol gyda rhaglen newydd Adnodd Data Cenedlaethol GIG Cymru er mwyn gwella'r gallu i gael gafael ar ddata iechyd a gofal at ddibenion ymchwil
- Byddwn yn gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel partner strategol i gefnogi integreiddiad agosach rhwng systemau ymchwil a chlinigol
- Byddwn yn gwneud y gorau o'n potensial digidol i gefnogi'r broses o gyflawni a sefydlu astudiaethau, a'r gallu i gael gafael ar ymchwil, drwy sefydlu rhaglen waith sy'n galluogi'r defnydd o ddata rheolaidd i gefnogi recriwtio a chyflenwi

[24] Better, broader, safer: using health data for research and analysis – GOV.UK (www.gov.uk)

treialon ymchwil, a lunnir gan waith ystyriaeth gyhoeddus i bennu disgwyliadau a dull

## 8. Defnyddio gwaith ymchwil i wella iechyd a gofal cymdeithasol

Rydym yn gweithio gydag arweinwyr y system iechyd a gofal cymdeithasol a'u sefydliadau i hybu defnydd effeithiol o ymchwil mewn arloesedd a gwelliant, sy'n arwain at ledaenu a chwyddo'r gwelliannau hynny.

Yn ystod pandemig COVID-19, ariannodd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru Ganolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru i gyflawni synthesisau tystiolaeth cyflym ond trwyadl a gwaith ymchwil sylfaenol cyflym i gefnogi anghenion gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill nad oeddent yn cael sylw drwy ymdrech ymchwil ehangach y DU ac yn rhyngwladol. Datblygodd Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru rwydwaith eang o gydweithredwyr a rhanddeiliaid yn gyflym, gan gynnwys arbenigedd sydd eisoes yn bodoli ar gyfer adolygu tystiolaeth a synthesis megis Technoleg Iechyd Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynorthwyo'r broses o nodi cwestiynau y mae angen atebion brys arnynt gan weithio gyda Chell Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru i fireinio a blaenoriaethu'r anghenion hynny.

Gan fanteisio ar arbenigedd ym meysydd iechyd y cyhoedd, gwybodeg iechyd, synthesis tystiolaeth gan gynnwys adolygiadau systematig, economeg iechyd a gofal ac asesu technoleg iechyd, datblygodd Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru raglen waith a sbardunir gan randdeiliaid yn gyflym, gan sicrhau'r defnydd o ymchwil mewn tystiolaeth ar gyfer rheoli'r pandemig a chynorthwyo adferiad ac adfywiad[25].

Daeth yn glir yn gyflym iawn fod capasiti ar gyfer adolygu cyflym, synthesis tystiolaeth ac ymchwil sylfaenol cyflym i lywio'r broses o wneud penderfyniadau o ran polisïau ac ymarferion yn angen canolog a pharhaus, sydd â gwerth parhaus y tu hwnt i'r pandemig uniongyrchol.

Tan y pandemig, cymharol brin oedd y buddsoddiad a wnaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru mewn synthesis tystiolaeth a gweithredu gwybodaeth, er ein bod yn gwneud cyfraniad ariannol at weithgareddau dosbarthu a gweithredu gwybodaeth Canolfan Ymgysylltu a Dosbarthu y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal. Mae'r Rhybuddion, y Casgliadau a'r Adolygiadau â Thema a gyhoeddir gan y Ganolfan Ymgysylltu a Dosbarthu yn cwmpasu prosiectau a ariennir gan ein cynlluniau ariannu ein hunain yn ogystal â'r rhai a ariennir trwy raglenni y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal y mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn buddsoddi ynddynt, ond maent hefyd yn rhychwantu prosiectau sylweddol a ariennir ar draws y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal a thu hwnt.

[25]https://ymchwiliechydagofalcymru.org/amdanom-ni-cymuned-ymchwil/canolfan-dystiolaeth-covid-19-cymru

Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Byddwn yn sefydlu Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru newydd sy'n adeiladu ar gyflawniadau Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru, gan eu prif ffrydio. Bydd y Ganolfan Dystiolaeth newydd yn gweithio ar draws cylch gwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru llawn, gan fynd i'r afael â materion blaenoriaeth allweddol ym maes iechyd, iechyd y cyhoedd a gofal cymdeithasol. Bydd yn gweithio'n agos gyda chanolfannau eraill, gan ddarparu adolygu tystiolaeth a synthesis i Lywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill. Bydd yn cael ei hariannu yn dilyn galwad agored a chystadleuol am geisiadau ac yn weithredol o fis Ebrill 2023.
- Byddwn yn adolygu ein buddsoddiad parhaus yng Nghanolfan Ymgysylltu a Dosbarthu y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal a'n partneriaeth â hi yng ngoleuni datblygiad Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.
- Byddwn yn ymgysylltu ag arianwyr eraill, er enghraifft drwy fforwm Ensuring Value in Research i nodi a dysgu o ymarferion gorau a allai lywio ein gweithgareddau dosbarthu a gweithredu gwybodaeth.

# 9. Themâu trawsbynciol

## 9.1 Cyfathrebu, ymgysylltu, a chyfranogiad

I gyflawni amcanion y cynllun hwn, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i godi proffil Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru drwy arddangos effaith gwaith ymchwil, gweithio mewn partneriaeth ar draws sectorau a chynnwys mwy o'n cymunedau i helpu i lunio a chymryd rhan mewn astudiaethau.

Gyda chynifer o sefydliadau yn ymwneud ag ariannu a chyflawni gwaith ymchwil, gan gynnwys byrddau iechyd, prifysgolion, elusennau, diwydiant a sefydliadau eraill a ariennir, bu'n anodd cyfathrebu a dangos ei effaith gyfunol, a'i bwysigrwydd o ran gwella gofal a gwasanaethau yn y gorffennol.

Amlygodd treialon brechlynnau a thriniaeth cenedlaethol yn ystod COVID-19 gyfraniad sylweddol Cymru at ymdrech ymchwil y DU, y gwnaethom lwyddo i'w helaethu drwy strategaeth gyfathrebu 'Cymru'n Un' gydgysylltiedig. Rhoddodd gweithio mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, byrddau iechyd, prifysgolion a noddwyr treialon hwb i recriwtio i astudiaethau hefyd, yn ogystal â datblygu gwell ddealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o bwysigrwydd gwaith ymchwil. Ein bwriad yw adeiladu ar yr etifeddiaeth hon drwy ddull cyfathrebu 'Cymru'n Un' ar gyfer yr **holl** ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol a ariennir neu a ariennir yn rhannol gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, a fydd yn tanategu'r cynllun tair blynedd.

Byddwn yn datblygu brand Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ymhellach ymhlith ein rhanddeiliaid a'r cyhoedd drwy fod yn glir ynghylch pwy ydym ni a'r hyn yr ydym yn ei wneud, drwy ddarparu fframwaith cydlynol a thôn a negeseuon cyson, a chefnogi arweinwyr cyfathrebu, ymgysylltu a chyfranogiad ein seilwaith a ariennir a phartneriaid eraill sy'n cyflenwi ymchwil.

Bydd gan ein gweithgareddau cyfathrebu, ymgysylltu a chyfranogiad hunaniaeth Gymreig gryf gan gysoni â chyfathrebiadau ehangach Llywodraeth Cymru a strategaethau ymchwil y DU megis *Adfer, Cydnerthedd a Thwf – Dyfodol Cyflenwi Ymchwil Glinigol y DU*[26] a [Be Part of Research](). Byddwn hefyd yn gweithio gydag arweinwyr cyfathrebu y gwledydd datganoledig ar weithgareddau ledled y DU i sicrhau bod cyfraniad Cymru at ymchwil yn cael ei gydnabod a'i hyrwyddo.

Dros y tair blynedd nesaf, bydd ein strategaeth cyfathrebu, ymgysylltu a chyfranogiad yn codi ymwybyddiaeth o effaith ymchwil yng Nghymru drwy sylw yn y cyfryngau, digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, cynadleddau a chyfryngau cymdeithasol. Byddwn yn hwyluso croes-hyrwyddo gyda'n partneriaid drwy ddatblygu ein Cynghreiriau Cyfathrebu a Chynnwys y Cyhoedd llwyddiannus, rhannu ymarferion gorau, cydweithredu ar raglenni gwaith allweddol a ariennir yn ogystal â chynorthwyo'r broses recriwtio ar gyfer astudiaethau cenedlaethol.

Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Byddwn yn cefnogi ymchwilwyr newydd a phresennol, academyddion a chymuned ymchwil y GIG i gyfathrebu effaith eu gwaith ac i gynnwys y cyhoedd yn eu gwaith ymchwil. Bydd hyn yn cynnwys codi proffil eu hymchwil ar sianelau cyfathrebu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, darparu rhaglen hyfforddiant cyfryngau addasedig, a datblygu ein rhaglen Llysgenhadon ar gyfer uwch-arweinwyr ymchwil fel y gallant fod yn llysgenhadon brand mwy effeithiol i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Byddwn yn cynnig cyfleoedd i fwy o gymunedau a grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol ledled Cymru ymgysylltu â gwaith ymchwil, gan gynnwys helpu i ddylunio a chymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo cyfleoedd i gynnwys cyhoedd, darparu hyfforddiant, a hwyluso gwaith allgymorth gyda dylanwadwyr cymunedol. Byddwn hefyd yn adeiladu ar gam cyntaf ein hymgyrch ymgysylltu cyhoeddus '*Ble fydden ni heb ymchwil?*' i ddod ag ymchwilwyr, y GIG ehangach a'r cyhoedd at ei gilydd sy'n rhan o'n strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd tair blynedd[27]

---

[26] https://ymchwiliechydagofalcymru.org/gweithwyr-iechyd-gofal-proffesiynol/dyfodol-cyflenwi-ymchwil-glinigol-y-du
[27] https://healthandcareresearchwales.org/sites/default/files/2021-12/health_and_care_research_wales_public_engagement_strategy_2021_cy.pdf

## 9.2 Cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil iechyd a gofal

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi ymrwymo i wella cyfradd ac ansawdd cynnwys y cyhoedd ar draws ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru fel ei fod yn rhagorol yn gyson. Mae gwreiddio cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil yn gofyn am amser ac adnoddau, yn y prosiectau ymchwil unigol yn ogystal â thrwy holl strwythurau a phrosesau yr amgylchedd ymchwil cyfan. Mae hyn yn flaenoriaeth i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac rydym yn disgwyl hyn gan y rhai yr ydym yn eu hariannu a'u cynorthwyo.

Rydym yn falch o'r gweithgareddau, yr arloesedd a'r arweinyddiaeth ar yr agenda cynnwys y cyhoedd sydd wedi dod o gymuned Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, drwy fanteisio ar ymrwymiad, profiadau ac egni cyfranwyr cyhoeddus, ymchwilwyr ac arweinwyr cynnwys y cyhoedd. Nid yn unig yw'r ymdrechion hyn wedi bod yn effeithiol o ran hwyluso gweithgarwch cynnwys y cyhoedd o ansawdd uchel, ar draws yr holl weithgareddau datblygu, ariannu a chyflenwi ymchwil yng Nghymru, ond fe'u dangosir yn gynyddol gan staff cynnwys y cyhoedd a chyfranwyr cyhoeddus o Gymru yn cyflawni swyddogaeth arweinyddol mewn trafodaethau a mentrau ar lefel y DU. Rydym wedi bod wrth wraidd datblygiadau sy'n ymwneud â Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd[28] a'r gwaith ar ganllawiau taliadau cyfranwyr cyhoeddus ac rydym yn falch o fod yn rhan o'r grŵp sy'n llunio Ymrwymiad Cyffredin y DU i Gynnwys y Cyhoedd.

Fodd bynnag, mae'r dasg o ymgymryd â gwaith cynnwys y cyhoedd ystyrlon yn un o welliant parhaus, ac mae mwy y gallwn ei wneud bob amser.

Mae Cynllun Gweithredu Adfer, Cydnerthedd a Thwf[29] diweddar yn cynnwys 'ymchwil sy'n canolbwyntio ar bobl' fel thema allweddol, mae'n pwysleisio'r angen i'r cyhoedd allu dylanwadu ar ddyluniad gwaith ymchwil i'w wneud yn berthnasol, yn ogystal â gallu cael gafael ar gyfleoedd ymchwil yn haws. Bydd ein cyfraniadau at gyflawni hyn yn adeiladu ar gynllun 'Gwaith Ymchwil ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol – darganfod eich rôl'[30] a ddyluniwyd ar y cyd ag aelodau o'r cyhoedd a'r gymuned ymchwil, sy'n dal i fod yn ganolbwynt i'n gweithgarwch i gefnogi'r agenda cynnwys y cyhoedd drwy gyfeiriad strategol a chamau ymarferol.

---

[28] https://ymchwiliechydagofalcymru.org/cyhoeddus-cynnwys/safonaur-du-ar-gyfer-cynnwys-y-cyhoedd

[29] The Future of Clinical Research Delivery: 2022 to 2025 implementation plan – GOV.UK (www.gov.uk)

[30] https://healthandcareresearchwales.org/sites/default/files/2021-01/Discover_Your_Role_in_Health_and_Social_Care_Research_Dec_2020_CY_0.pdf

Mae ein camau allweddol yn cynnwys:

- Byddwn yn gweithio yn rhan o Grŵp Cynnwys y Cyhoedd y Pum Gwlad i arwain a chydweithredu ar brosiectau sy'n mynd i'r afael â rhwystrau gweinyddol a system i gynnwys y cyhoedd yn ystyrlon
- Byddwn yn creu offer ac adnoddau i gynorthwyo ymchwilwyr i gorffori cynnwys y cyhoedd yn ystyrlon yn eu gwaith, gan fanteisio ar Safonau y DU fel y fframwaith ar gyfer ymarferion da
- Byddwn yn ehangu'r cyfleoedd i boblogaeth fwy amrywiol yng Nghymru gymryd rhan yn y gwaith o lunio, llywio, adolygu a chyflenwi gwaith ymchwil o ansawdd uchel, gan weithio gyda grwpiau cymunedol lleol a sefydliadau cenedlaethol
- Byddwn yn parhau i weithredu'r strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd tair blynedd a gyhoeddwyd gennym yn 2021, i hyrwyddo'r swyddogaeth hollbwysig y mae'r cyhoedd yn ei chyflawni o ran galluogi ymchwil i ddigwydd, a sut y gallant gymryd rhan.

## 9.3 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn ymchwil iechyd a gofal

Er bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gwaith wedi bod yn bwysig inni erioed, mae pandemig COVID-19 a datblygiadau byd-eang eraill wedi pwysleisio pwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant fel erioed o'r blaen. Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi ymrwymo'n llawn i'r agenda hon ac wedi ymrwymo i ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol sy'n chwarae rhan hanfodol wrth wella bywydau yr holl bobl a chymunedau yng Nghymru. Mae'r digwyddiadau yn 2020 wedi rhoi pwyslais pendant ar anghydraddoldeb i bawb. I waith ymchwil fod yn ystyrlon a chael effaith, mae'n rhaid inni gydnabod amrywiaeth yn ein poblogaeth a sicrhau bod ein holl weithgareddau yn gynhwysol, gan ddathlu a chroesawu pawb heb ystyried daearyddiaeth, statws economaidd-gymdeithasol, oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, rhyw, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, crefydd neu gred a'r gallu i gael gafael ar ofal iechyd a chymdeithasol.

Bu datblygiadau cadarnhaol ar draws Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru hyd yma ac, yn benodol, rydym wedi gweld gwelliannau yn y ffordd yr ydym yn monitro data ar draws rhaglenni ariannu a chyfleoedd cynnwys y cyhoedd, recriwtio wedi ei dargedu i astudiaethau, ymgyrchoedd ymgysylltu â'r cyhoedd yn well, a bu mwy o bwyslais yn ein rhaglenni gwaith ar gynnwys pobl sydd â phrofiadau bywyd wrth lunio gwaith ymchwil.

Mae gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru gyfrifoldeb clir i sicrhau y rhoddir sylw i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein holl weithgareddau a'u bod yn cael eu gwreiddio ym mhopeth a wnawn, fel ein bod yn gwasanaethu poblogaeth Cymru

â'r genhadaeth o wella bywydau yr *holl* bobl a chymunedau yng Nghymru. Felly, byddwn yn cyflwyno cynllun gweithredu mwy diffiniedig a systematig a fydd yn arwain at fwy o gynwysoldeb ar draws ein holl weithgareddau, gan fabwysiadu dull cyd-greu mewn ymgynghoriad â'r gymuned.

Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu a fydd yn arwain at fwy o gynwysoldeb ar draws ein holl weithgareddau, gan fabwysiadu dull cyd-greu mewn ymgynghoriad â'r gymuned.
- Byddwn yn creu mwy o arweinyddiaeth dros gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws ein rhaglenni gwaith ac yn sicrhau eu bod wedi eu gwreiddio'n llawn ar lefel polisi a chyflenwi drwy ein gweithgareddau a ariennir.
- Byddwn yn mynd i'r afael â grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol yn ein harferion ein hunain e.e. ar baneli ariannu, wrth gynnwys y cyhoedd, mewn prosesau llywodraethu (megis byrddau cynghori), ac yn yr unigolion a'r cymunedau sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil a ariennir neu a gefnogir gennym
- Byddwn yn gweithio gydag arianwyr eraill i ddysgu o ymarferion gwaith da a sicrhau bod materion sy'n berthnasol i grwpiau lleiafrifoedd yn rhan o bortffolios ymchwil a'u bod wedi eu gwreiddio'n dda yn yr ymchwil a ariennir gennym.
- Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau partner gan gynnwys Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a phartneriaid sector cyhoeddus ehangach (y GIG, SAUau ac Awdurdodau Lleol) i wella cynrychiolaeth yn y gweithlu a datblygu mentrau, ymarferion gwaith a hyfforddiant i ddenu ystod fwy amrywiol o bobl i yrfaoedd ymchwil a'r gweithlu ymchwil ehangach.
- Byddwn yn ymrwymo i gyhoeddi data amrywiaeth ar draws yr amrywiaeth o weithgareddau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac yn monitro hyn yn barhaus i nodi meysydd i'w gwella.

## 10. Casgliad: mae ymchwil yn bwysig pan fo ymchwil yn gweithio

Rhoddwyd y teitl "Mae ymchwil yn bwysig" i'r cynllun hwn yn fwriadol – i adlewyrchu faint yr ydym wedi ei ddysgu dros y ddwy neu dair blynedd ddiwethaf am ba mor ganolog y gall ac y dylai ymchwil fod i benderfyniadau gan bobl a sefydliadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ei hanfod, gall ymchwil wella iechyd a gofal cymdeithasol mewn ffyrdd sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a diriaethol i fywydau pobl a chymunedau yng Nghymru, ac mae'n gwneud hynny. Ond – i wneud hynny'n dda, mae gennym gyfrifoldeb a rennir i sicrhau ein bod yn defnyddio'r buddsoddiad mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol mor effeithiol ac effeithlon â phosibl – i gyflenwi gwaith ymchwil gwych, a'i weld yn cael ei ddefnyddio mewn polisïau ac ymarferion.

Roedd gennym lawer o sylwadau ac awgrymiadau defnyddiol iawn ar gyfer gwelliannau i'r cynllun hwn ac rydym wedi ceisio eu cynnwys yn y fersiwn ddiwygiedig hon. Un pwynt cyffredin y byddwn yn ei dderbyn yn ystod 2023 yw y byddai llawer o bobl yn hoffi ein gweld yn atodi amserlenni a therfynau amser i'r camau yr ydym wedi eu hesbonio'n glir. Byddwn hefyd yn adolygu ac yn diweddaru'r cynllun yn flynyddol er mwyn mapio a mesur cynnydd (ac yn cydnabod ac yn mynd i'r afael â phroblemau neu anawsterau pan fyddant yn codi) ac yn diweddaru'r naratif a'r camau arfaethedig i ystyried y cynnydd a wnaed gennym a'r cyd-destun sy'n newid o ran ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, yng Nghymru a ledled y DU.